George Cadbury 1839–1922

Cynhyrchydd siocled a diwygiwr cymdeithasol

Ganwyd George Cadbury yn Birmingham ar 19 Medi 1839 yn bedwerydd plentyn i John a Candia Cadbury. Addysgwyd ef gartref ac yn Ysgol Lean yn Edgbaston a gedwid gan y Crynwyr. Ei ddymuniad cyntaf oedd bod yn llawfeddyg ond dilynodd yn ôl traed ei dad a mynd i fyd busnes gan ddechrau yng nghwmni groser Joseph Rowntree yn Efrog, cyn ymuno â'i dad yn y ffatri goco yn Birmingham. Yn Ebrill 1861 cymerodd ef, ac yntau yn un ar hugain oed, a'i frawd Richard reolaeth lwyr o'r busnes o ganlyniad i salwch eu tad. Wedi cyfnod cychwynnol anodd fe ddaeth cyfnod eithriadol o ffyniannus. Gweithiodd George fel lladd nadroedd i adeiladu busnes cryf a gweithredai ar egwyddorion a ddeilliai o'i ffydd Gristnogol fel diwydrwydd, cynnyrch safonol, gonestrwydd llwyr ac amodau da i'r gweithwyr.

Daeth y datblygiad pwysicaf yn hanes cwmni Cadbury Brothers ym 1866 pan ddechreuwyd cynhyrchu rhinflas coco (cocoa essence). Trwy broses arbennig, yn defnyddio gwasgydd Van Houten, llwyddwyd i gynhyrchu powdwr coco manach na'r arferol. Pwysleisiwyd nad oedd unrhyw ychwanegiadau i'r cynnyrch hwn, yn wahanol i gwmnïau eraill, a llwyddwyd i'w werthu trwy hysbysebu trawiadol a phacio deniadol. Roedd George yn barod i fentro ac arloesi ac erbyn 1910 Cadbury oedd y cynhyrchydd coco a siocled mwyaf yng ngwledydd Prydain.

Erbyn 1879 roedd yr adeilad yn Bridge Street yn llawer rhy fychan i'r cwmni ac felly penderfynodd y partneriaid achub ar y cyfle i weithredu arbrawf economaidd a chymdeithasol. Symudasant eu gweithfeydd i Bournville, ardal wledig rhyw bedair milltir o Birmingham. Yma gweithredwyd ar gynllun i wella effeithiolrwydd eu ffatrïoedd ac amgylchiadau'r gweithlu trwy adeiladu tai pwrpasol ar eu cyfer. Yn ddiweddarach cyflwynwyd taliadau salwch a phensiynau. Syniad George oedd llawer iawn o hyn. Ym 1900 sefydlodd y Bournville Village Trust oedd yn berchen ar lawer o dir. Bwriad yr ymddiriedolaeth hon oedd

cynorthwyo gweithwyr. Bu George yn briod ddwywaith ac fe gafodd 11 o blant. Wedi marwolaeth ei frawd Richard ym 1899 daeth Cadbury Brothers yn gwmni cyfyngedig gyda George yn gadeirydd. Roeddent yn dal i arloesi gyda thechnoleg cynhyrchu a marchnata ac ym 1905 ymddangosodd y Cadbury's Dairy Milk, a coco Bournville y flwyddyn ddilynol. Dan arweiniad George fe dyfodd gweithlu'r cwmni o 20 i oddeutu 8,600 o bobl.

Rhan fawr o waith cymdeithasol George oedd y mudiad ysgolion i oedolion. Trwy gydol ei oes bu'n athro mewn ysgol i oedolion yn Birmingham ac yn arweinydd dosbarth Beiblaidd. Dysgodd gannoedd o ddynion y ddinas i ddarllen ac ysgrifennu a thrwy ymwneud â'r bobl hyn dysgai ef beth oedd eu hanghenion.

Roedd ganddo lawer iawn o ddiddordebau eraill. Yr oedd yn gyd-berchennog y *Daily News*, papur newydd a roddai fynegiant i safbwyntiau Ymneilltuol a'r Blaid Ryddfrydol. Bu farw yn ei gartref, Manor House, Birmingham, ar 24 Hydref 1922.